Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU | Funded by UK Government

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY
# CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU 2025/2026
# RHESTR O BROSIECTAU

## Cyflogadwyedd a Sgiliau

**Gweithio'n Iach Conwy**
Darparu cefnogaeth cyflogadwyedd ac iechyd integredig i bobl â rhwystrau iechyd meddwl i ganfod a sicrhau cyflogaeth addas.  Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth cyflogaeth dwys ynghyd â therapi a hyfforddiant i helpu cyfranogwyr i ddod o hyd i waith.  Mae'n rhaid i gyfranogwyr fod yn 16 oed neu'n hŷn ac yn byw yn Sir Conwy i gofrestru am gefnogaeth.

**Sefydliad Arweiniol:** Strategaeth Dinas y Rhyl
**E-bost:** workwell@rcs-wales.co.uk
**Gwefan:** Gweithio'n Iach Conwy - Lleoliad a Chymorth i Unigolion - RCS Cymru

**Camau Cefnogol**
Bydd y prosiect Camau Cefnogol estynedig yn blaenoriaethu cefnogaeth i bobl ifanc diamddiffyn 16-25 oed sy'n astudio gyda Grŵp Llandrillo Menai neu wrthi'n trosglwyddo i wneud hynny.  Gan adeiladu ar weithgareddau blaenorol, bydd y prosiect yn darparu cymorth estynedig sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl, lles, a datblygu sgiliau bywyd hanfodol i gynorthwyo â chynnal canlyniadau cadarnhaol yn y dyfodol. Bydd yn sicrhau fod pobl ifanc yn parhau i ymwneud ag addysg wrth wneud cynnydd ystyrlon o ran addysg, cyflogadwyedd, a lles. Bydd y cyfnod pontio hwn hefyd yn gweithredu fel pont tuag at gynaliadwyedd hirdymor, gan gryfhau isadeiledd cymorth y rhanbarth ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau i symud ymlaen i addysg ôl-16.

Sefydliad Arweiniol:  Grŵp Llandrillo Menai
Manylion Cyswllt:   Zoe Fox
E-bost: fox1z@gllm.ac.uk
Gwefan:  https://www.gllm.ac.uk/cy/student-hub/supportive-steps

**Working Sense**
Prosiect i wella sgiliau cyflogadwyedd pobl dros 25 â nam ar y synhwyrau neu anableddau, drwy ddarparu cymorth arbenigol i alluogi'r grŵp targed i symud yn nes at y farchnad swyddi, gan ddefnyddio dull holistig un-i-un.

Sefydliad Arweiniol:  Y Ganolfan Arwyddo Golwg Sain
Manylion Cyswllt:   Clare Lewis
E-bost:  clare.lewis@COS.org.uk

Gwefan: https://www.centreofsignsightsound.org.uk/working-sense

**Gofal Plant Ar Waith**
Darparu rhaglen gyflogadwyedd Gofal Plant Ar Waith yng Nghonwy, gan recriwtio 11 o oedolion a phobl ifanc di-waith neu economaidd anweithgar sydd â diddordeb yn y sector Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.

Mae Gofal Plant Ar Waith yn rhaglen gyflogaeth 16 wythnos â thâl, sy'n helpu i fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol lleol, a'r argyfwng recriwtio y mae'r sector gofal plant lleol yn ei wynebu. Fe'i lluniwyd i gefnogi cyfranogwyr i baratoi ar gyfer gwaith fel Cynorthwywyr Meithrin Dan Hyfforddiant drwy gynnig hyfforddiant gofal plant rhagarweiniol unigryw, yn ogystal â lleoliadau gwaith â thâl.

**Sefydliad Arweiniol:** Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru)
**Manylion Cyswllt:** Claudia Wood
**E-bost:** claudia.wood@ndna.org.uk
**Gwefan:** www.ndna.org.uk

**Planhigfa a Siop Bryn Euryn**
Darparu cyfleoedd i weithio a datblygu sgiliau ar gyfer pobl ag anableddau drwy'r dull cyflogaeth â chymorth. Mae'r prosiect arloesol hwn yn llwyddiannus iawn o ran cefnogi pobl ag anableddau dysgu i ddatblygu sgiliau allweddol ac mae eisoes wedi cefnogi nifer o bobl na fyddent wedi gallu dod o hyd i waith cynaliadwy a chyflogedig yn flaenorol.

**Sefydliad Arweiniol:**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
**Manylion Cyswllt:** Ramona Murray
**E-bost**: ramona.murray@conwy.gov.uk
**Gwefan:** Planhigfa a Chaffi Bryn Euryn - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Trawsnewid Meddyliau Ifanc - I2EM (Cyflwyniad i Beirianneg a Gweithgynhyrchu)**
Bydd y prosiect Cyflwyniad i Beirianneg a Gweithgynhyrchu (i2EM) yn darparu gweithdai i bobl ifanc yn ysgolion uwchradd Conwy i ddatblygu sgiliau gwaith ar gyfer gyrfaoedd yn y sector Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg yng Ngogledd Cymru.

Mae gweithgareddau'n cynnwys sesiynau peirianneg ymarferol cyffrous a heriol wedi'u hanelu at ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 (neu Gam Cynnydd 4) i roi gwell cyd-destun o ddefnydd a datblygiad sgiliau cyflogadwyedd, megis gweithio mewn tîm a datrys problemau, a chefnogi sgiliau rhifedd, digidol a llythrennedd.

**Sefydliad Arweiniol:** Cynllun Addysg Beirianneg Cymru Cyf.
**Manylion Cyswllt:** Rebecca Davies

**E-bost:** info@stemcymru.org.uk
**Gwefan:** https://www.stemcymru.org.uk/cartref/

**TRAC**
Mae'r prosiect TRAC yn darparu cefnogaeth werthfawr i bobl ifanc 11-16 oed sydd â'r mwyaf o risg o fod yn NEET (Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) pan fyddant yn gadael yr ysgol. Mae'r ymyrraeth TRAC ar gyfer pobl ifanc 11-16 oed sydd mewn perygl o fod yn NEET (Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant).

Darperir cefnogaeth drwy sesiynau 1 i 1 lle anogir pobl ifanc i drafod yr heriau y maent yn eu hwynebu o ran cynnal presenoldeb, cyrhaeddiad ac ymddygiad da o fewn yr ysgol a thu allan i'r ysgol, a pha gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wella canlyniadau yn yr ysgol a thu hwnt.

**Sefydliad Arweiniol:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
**Manylion Cyswllt:** Tracey Owen
**E-bost:** TRAC@conwy.gov.uk
**Gwefan:** TRAC, ar gyfer pobl 11-16 oed - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Llwybrau at Gyflogaeth**
Cefnogi ac uwchsgilio unigolion 16+ oed i weithio tuag at/ymuno â'r farchnad swyddi neu ennill profiad a chymwysterau i ganfod a chynnal swydd o ansawdd uchel.

Bydd gweithgareddau a chyrsiau'n cynnwys magu hyder / cefnogaeth lles, sgiliau gwaith / profiad / gwirfoddoli ar gyfer oedolion a phobl ifanc (16-19). Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth perthnasol o ansawdd uchel ac wedi'i dargedu i unigolion/carfanau ar sail anghenion a nodwyd i helpu buddiolwyr ddod o hyd i waith.

**Sefydliad Arweiniol:**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
**Manylion Cyswllt:** Jay Martin
**E-bost:** CCC@conwy.gov.uk
**Gwefan:** Canolbwynt Cyflogaeth Conwy – Rhagor o Wybodaeth – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

---

## Cymunedau Iach, Diogel a Chynhwysol

**Gwell Mannau Agored - Teledu cylch caeëdig**
Gwella rheolaeth mannau agored, addysg a diogelu'r amgylchedd trwy wella gwasanaeth teledu cylch caeëdig.

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU | Funded by UK Government

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sefydliad Arweiniol:**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
**Manylion Cyswllt:** Emma Dowell
**E-bost:** Emma.dowell@conwy.gov.uk
**Gwefan:** www.conwy.gov.uk

**Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Conwy**
Mae Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Conwy yn rhoi cyfle i grwpiau a sefydliadau lleol ymgeisio am gyllid ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi adfywio eu cymunedau yng Nghonwy.

Bydd y prosiect yn cefnogi gwella meysydd chwarae a thoiledau cyhoeddus ar draws y sir a helpu â sgiliau cyflogaeth.

**Sefydliad Arweiniol:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
**Manylion Cyswllt:** Melissa Davies
**E-bost:** datblygu.lleol@conwy.gov.uk / sharedprosperityfund@conwy.gov.uk
**Gwefan:** Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Cronfa Allweddol Cynyddu Gallu Sector Gwirfoddol Conwy**
Cymorth ariannol, hyfforddiant cynyddu gallu ac ymchwil lleol i gryfhau a thyfu'r trydydd sector yng Nghonwy er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer cyllid a buddsoddiad i'r dyfodol. Bydd rhaglen Cynyddu Gallu Sector Gwirfoddol Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy yn atgyfnerthu gwytnwch ac effeithlonrwydd y sector gwirfoddol a chymunedol yng Nghonwy. Bydd y prosiect hwn yn darparu cymorth ariannol hanfodol, hyfforddiant cynhwysfawr, a datblygiad gwirfoddol allweddol, gan sicrhau fod grwpiau lleol yn gallu mynd i'r afael ag anghenion cymunedol yn effeithiol.

**Sefydliad Arweiniol:**Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy (CGGC)
**Manylion Cyswllt:** Josephine Hastings
**E-bost:** josephinehastings@cvsc.org.uk
**Gwefan:** www.cvsc.org.uk

**Prosiect Lles Cymunedol**
Mae hwn yn darparu gweithgareddau sydd wedi bod yn destun asesiadau ac ymgynghoriadau lleol er mwyn gwella iechyd, lles, cysylltedd cymdeithasol yn y gymuned a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer adfer iechyd meddwl.

Trwy gynnig gweithgareddau effeithiol a hunangynhaliol, mae'r prosiect yn helpu aelodau'r gymuned i gynnal annibyniaeth a datblygu rhwydweithiau cefnogol yn ddiweddarach mewn bywyd. Gall cymryd rhan mewn mentrau adferiad creadigol leihau neu atal profiadau o salwch meddwl. Bydd ystod o weithgareddau wedi'u targedu ar gael ar draws y sir. Trwy

ymgysylltiad parhaus â'r rhaglen, mae unigolion yn dod yn fwy cysylltiedig ac mewn gwell sefyllfa i reoli'r heriau o fynd yn hŷn yn y byd heddiw.

**Sefydliad Arweiniol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
**Manylion Cyswllt:** Lydia Mottershead
**E-bost:** arosyniach@conwy.gov.uk
**Gwefan:** Lles Cymunedol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Datblygu Talent a Chefnogaeth**
Gwella iechyd a lles pobl yng Nghonwy drwy weithgareddau a chyfleusterau chwaraeon, celfyddydau, addysg a chydnabod talent a gwirfoddolwyr.

**Sefydliad Arweiniol:**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
**Manylion Cyswllt:** Caroline Jones
**E-bost:** leisuredevelopment@conwy.gov.uk
**Gwefan:** Datblygu Hamdden

**Ymgysylltu â Chwaraeon a Gweithgareddau Iau Ffit Conwy**
I wella'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i gefnogi pobl ifanc 11-15 i fod yn fwy actif ac yn gyfrifol am eu hiechyd, ffitrwydd a lles.

Bydd y rhaglen hon hefyd yn gwella hygyrchedd i sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael pob cyfle posibl i fod yn gorfforol egnïol a chreu arferion cadarnhaol iach sydd o fudd i'w lles corfforol a meddyliol - gan fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant a gwella cyfleoedd i bawb.

**Sefydliad Arweiniol:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
**Manylion Cyswllt:** Mark Orme
**E-bost:** hamdden.leisure@conwy.gov.uk
**Gwefan:** Ffit Conwy

**Datblygu Rhaglen Dysgu Nofio**
Bydd y prosiect hwn yn gwella ansawdd ein haddysg ac yn cynyddu sgiliau nofio plant. Byddwn yn gwneud hyn drwy gynnig gwersi nofio ar ôl ysgol yn ogystal â gwersi nofio gyda'r ysgol. Bydd yn caniatáu i'n plant a'n pobl ifanc gael rhagor o fynediad at ein cyfleusterau hamdden a'r buddion cysylltiedig i'w lles corfforol a'u lles meddyliol.

**Sefydliad Arweiniol:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
**Manylion Cyswllt:** Alun Evans
**E-bost:** hamdden.leisure@conwy.gov.uk

**Gwefan:** Ffit Conwy

**Creu'r Sbardun**
Byddwn yn darparu prosiect pontio diwylliannol i Fwrdeistref Sirol Conwy gan ganolbwyntio ar gefnogi;

- lles a chynhwysiant cymunedol
- capasiti o fewn y sector creadigol a diwylliannol
- rhaglen ddiwylliannol fywiog sy'n gwella ymdeimlad o le a'r economi ymwelwyr

**Sefydliad Arweiniol:**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
**Manylion Cyswllt:** Helen Jackson
**E-bost:** creu@conwy.gov.uk
**Gwefan:** Diwylliant Conwy | Diwylliant Conwy

---

# Cymorth i Fusnesau

**Cronfa Allweddol Cefnogi Busnesau Lleol**
Bydd y gronfa allweddol yn galluogi darparu grantiau mwy i gefnogi twf economaidd a chynaliadwyedd.

Bydd y cynllun ar agor i geisiadau gan fusnesau ym mhob sector ar draws sir Conwy.
Mae grantiau ar gael o £3,000 hyd at £100,000 ar gyfradd ymyrraeth o hyd at 70%. Bydd y grant hwn ar gael i fusnesau (masnachol neu gymdeithasol) ar draws pob sector; gan ddarparu cefnogaeth gyfalaf i brosiectau fydd yn galluogi'r busnesau hynny i baratoi ar gyfer a gyrru twf, arbedion effeithlonrwydd a gweithio i ddiogelu eu gweithrediad i'r dyfodol.

Drwy gymorth wedi'i dargedu, rydym yn awyddus i gefnogi ein heconomi a'n busnesau lleol sy'n tyfu i greu swyddi, cefnogi adferiad economaidd o fewn y sir a chefnogi'r busnesau hynny sy'n awyddus i weithredu mewn modd mwy gwyrdd a chynaliadwy.

**Sefydliad Arweiniol:**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
**Manylion Cyswllt:** Amanda Ballance
**E-bost:** busnes@conwy.gov.uk
**Gwefan:** Hafan - Canolfan Fusnes Conwy

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU | Funded by UK Government

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Cyfleoedd Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru**

Mae'r prosiect yn cynnwys pedair ffrwd waith allweddol sy'n ceisio gwneud y mwyaf o'r manteision a'r cyfleoedd i fusnesau a chymunedau ledled Gogledd Cymru, trwy fuddsoddiadau sy'n cyd-fynd â Bargen Dwf Gogledd Cymru:

- Hyrwyddo a gwella Porth Sgiliau Gogledd Cymru;
- Treialon Amaethyddiaeth Clyfar er mwyn canolbwyntio ar ddefnyddio technoleg LoRaWAN i wella a gwneud y gorau o waith ffermio;
- Dichonoldeb Ynni - cefnogaeth uniongyrchol i sefydliadau gynnal asesiadau dichonoldeb neu ddefnyddio cefnogaeth ymgynghorol i ddatblygu eu cynigion prosiect ynni a datgarboneiddio;
- Ymgysylltu â'r Gadwyn Gyflenwi - ymgysylltiad, dadansoddi data a hyfforddiant i baratoi sefydliadau ar gyfer gwneud cais am gyfleoedd cyllid cyfalaf perthnasol.

Sefydliad Arweiniol: Uchelgais Gogledd Cymru
E-bost: gwyb@uchelgaisgogledd.cymru
Gwefan: Uchelgais Gogledd Cymru | Cartref

---

# Llefydd Llewyrchus

**Gwella a Diogelu'r Economi Ymwelwyr ar gyfer y Dyfodol**
Bydd y prosiect yn goruchwylio nifer o ymyraethau a fydd yn gwella'r economi ymwelwyr yn sir Conwy. Mae'r rhain yn cynnwys marchnata twristiaeth dros y gaeaf, hyrwyddo'r rhaglen llysgenhadon a datblygu llwybrau a'n Canolfannau Croeso.

**Sefydliad Arweiniol:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
**Manylion Cyswllt:** Jasmin Ryan
**E-bost:** tourism@conwy.gov.uk
**Gwefan:** www.conwy.gov.uk

**Gwella Promenâd Llandudno**
Y Colonadau: Rhodfa sy'n rhannol restredig gradd II mewn lleoliad amlwg yn Llandudno. Mae'r prosiect hwn yn anelu i ymgymryd â gwaith sylweddol i ddiogelu'r strwythur a datblygu'r ased dreftadaeth, gan wella'r profiad i ymwelwyr.

**Sefydliad Arweiniol:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
**Manylion Cyswllt:** Jasmin Ryan
**E-bost:** tourism@conwy.gov.uk

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

**Gwefan:** www.conwy.gov.uk

Mae'r prosiectau hyn wedi'u hariannu'n rhannol neu'n gyfan gwbl gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Gweler gwybodaeth Llywodraeth y DU ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.